# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 17 Chwefror 2025

## SL(6)581 – Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2025

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn cynyddu uchafsymiau ac isafsymiau'r taliadau colli cartref sy'n daladwy o dan Ddeddf Digolledu Tir 1973 ("y Ddeddf") i'r rhai sy'n meddiannu annedd, neu sy'n cael eu trin fel pe baent yn meddiannu annedd, sydd â buddiant perchennog. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn cynyddu swm y taliad colli cartref sy'n daladwy o dan y Ddeddf mewn unrhyw achos arall.

Mae gan berson a ddadleolir o annedd drwy brynu gorfodol neu o dan amgylchiadau eraill a bennir yn adran 29 o'r Ddeddf hawlogaeth i gael taliad colli cartref.

Mewn achosion pan fo gan berson sy'n meddiannu annedd, neu sy'n cael ei drin fel pe bai'n meddiannu annedd, ar ddyddiad y dadleoli fuddiant perchennog, mae adran 30(1) o'r Ddeddf yn darparu bod swm y taliad colli cartref yn cael ei gyfrifo fel canran o werth y buddiant hwnnw ar y farchnad, a hynny'n ddarostyngedig i uchafswm ac isafswm.

Mae adran 30(2) o'r Ddeddf yn pennu swm y taliad colli cartref mewn unrhyw achos arall.

Mae rheoliad 2(a) o'r Rheoliadau hyn yn cynyddu'r uchafswm sy'n daladwy o dan adran 30(1) o'r Ddeddf o £62,000 i £82,000 ac mae rheoliad 2(b) yn cynyddu'r isafswm o £6,200 i £8,000.

Mae rheoliad 2(c) yn cynyddu'r taliad colli cartref mewn unrhyw achos arall, o dan adran 30(2) o'r Ddeddf, o £6,200 i £8,000.

Mae rheoliad 3 yn dirymu, gydag arbedion, Reoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2020.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Digolledu Tir 1973

**Fe'u gwnaed ar:** 30 Ionawr 2025

**Fe'u gosodwyd ar:** 03 Chwefror 2025

**Yn dod i rym ar:** 05 Mawrth 2025